OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1794

# Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002

## Rhan IV

## APELAU A BENDERFYNIR AR ÔL GWRANDAWIAD

**Dyddiad a hysbysiad gwrandawiad**

**12.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud y canlynol:

(a) cyn gynted ag y mae'n ymarferol, hysbysu'r apelydd, yr atebydd, unrhyw berson sydd wedi gwneud sylwadau mewn perthynas â'r apêl ac unrhyw berson arall y gwêl yn dda, o enw'r person penodedig a fydd yn cynnal y gwrandawiad;

(b) cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl unrhyw newid yn hunaniaeth y person penodedig, rhoi hysbysiad o'r newid hwnnw i'r personau sydd â hawl i gael eu hysbysu yn unol ag is-baragraff (a), onid nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny cyn cynnal y gwrandawiad, ac os felly rhaid datgan enw'r person penodedig a'r ffaith bod y person hwnnw wedi'i benodi ar ddechrau'r gwrandawiad;

(c) oni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar gyfnod llai o hysbysiad gyda'r apelydd a'r atebydd, rhoi hysbysiad ysgrifenedig heb fod yn llai na 4 wythnos i'r apelydd, yr atebydd, unrhyw berson â diddordeb a phersonau eraill y gwêl yn dda o'r dyddiad, amser a'r lle a drefnwyd ar gyfer y gwrandawiad; a

(ch) heb fod yn llai na 2 wythnos cyn y dyddiad a bennir i gynnal y gwrandawiad, cyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad yn un neu fwy o'r papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y lleolir y tir ynddi.

(2) Rhaid i bob hysbysiad o wrandawiad a roddir yn unol â pharagraff (1)(c) neu a gyhoeddir yn unol â pharagraff (1)(ch) gynnwys:

(a) datganiad o ddyddiad, amser a lle'r gwrandawiad ac o'r pwerau sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i benderfynu'r apêl o dan sylw;

(b) disgrifiad ysgrifenedig o'r tir sy'n ddigonol i ddynodi ei leoliad a'i hyd a'i led;

(c) disgrifiad byr o destun yr apêl; ac

(ch) manylion ynghylch ble a phryd y gellir archwilio copïau o'r dogfennau perthnasol i'r apêl.

(3) Er gwaethaf paragraff (1), caiff y Cynulliad Cenedlaethol amrywio'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cynnal y gwrandawiad, p'un a ydyw'r dyddiad fel y'i hamrwyiwyd o fewn y cyfnod sydd fel arall yn ofynnol gan y paragraff hwnnw neu beidio, ac mae paragraff (1)(c) a (ch) yn gymwys i'r dyddiad a amrywiwyd fel yr oedd yn gymwys i'r dyddiad a bennwyd yn wreiddiol.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol amrywio'r amser neu'r lle a bennwyd ar gyfer cynnal y gwrandawiad a rhaid rhoi hysbysiad o unrhyw amrywiad fel y gwêl yn rhesymol.